22 Medi 2015

Annwyl Bennaeth

Yn rhinwedd fy swyddogaeth fel Cyfarwyddwr newydd Canolfan Addysg Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru rwyf yn ysgrifennu atoch mewn perthynas â datblygiadau sydd wedi digwydd yn ystod misoedd yr haf.

Gan fod ein Cynllun Strategol presennol ar gyfer y Ganolfan yn dod at ei ddyddiad gorffen yn 2014-2015 roedd yn flaenoriaeth drafftio Cynllun Strategol newydd yn cyflwyno gweledigaeth sy'n heriol ac sy'n ymdrechu am safonau uchel yn holl waith partneriaeth y Ganolfan, yn ogystal â mynd i'r afael â gweledigaeth a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru i godi safonau mewn addysg. O ganlyniad, rwyf yn atodi'r **drafft newydd o Gynllun Strategol y Ganolfan ar gyfer 2015/16 – 2019/20**, sy'n darparu Datganiad Cenhadaeth ar gyfer y Ganolfan, nodau cyffredinol, blaenoriaethau strategol craidd, a'r prif ddangosyddion perfformiad allweddol sydd eisiau i'r ganolfan eu cyflawni. Gan mai drafft yw'r cynllun hwn y mae'n gweithredu fel man cychwyn ar gyfer ymgynghoriad ac felly **byddwn yn eich annog fel ysgol o fewn partneriaeth ein Canolfan i ystyried a rhoi sylwadau ar weledigaeth newydd y Ganolfan**. Gellwch wneud hyn naill ai drwy roi sylwadau mewn neges e-bost ataf i (Yr Athro Malcolm Thomas ar mlt@aber.ac.uk) a/neu drwy osod sylwadau ar y ddogfen pdf sydd wedi'i hatodi drwy ddefnyddio'r tab *Comments* ar frig y ddogfen pdf ar yr ochr dde. Wrth i'r cynllun strategol hwn esblygu fe ddaw i arwain newid o fewn ein Canolfan a ninnau'n cael ein dal yn atebol iddo.

O ganlyniad i'r drafft newydd hwn o Gynllun Strategol y Ganolfan, rydym wedi adolygu'r sianeli atebolrwydd o fewn y Ganolfan ar y cyd â dwy brifysgol. Wrth wneud hynny, mae **Trefn newydd o Atebolrwydd Strategol a Gwarantu a Gwella Ansawdd yn CAAGChC** wedi cael ei chytuno. Y mae diagram sy'n amlinellu'r drefn hon wedi'i atodi. Yn gryno, mae'r newidiadau allweddol i'r drefn flaenorol fel a ganlyn:

- Newidiwyd y bwrdd a fu gynt yn Fwrdd Academaidd yn ***Fwrdd Adolygu Perfformiad***. Bydd y Bwrdd hwn yn dal y Ganolfan yn atebol ac yn adolygu sut rydym yn mynd i'r afael â'r

Cynllun Strategol ac yn ei gyflawni. Bydd ganddo'r swyddogaeth o herio'r Ganolfan i gyflawni'i safonau uchel. Bydd y Bwrdd Adolygu Perfformiad hwn yn cwrdd 5 gwaith yn ystod 2015-16 yn y lle cyntaf. Bydd y Bwrdd Adolygu Perfformiad wedi'i gyfansoddi o'r canlynol: Dirprwy Is-Ganghellor (Cadeirydd ac aelod o Fwrdd Cynllunio Strategol Aberystwyth Bangor); Cyfarwyddwr y Ganolfan; Dirprwy Gyfarwyddwr y Ganolfan; Pennaeth Ysgolion (Aberystwyth a Bangor); Dirprwy Is-Ganghellor (aelod o Fwrdd Cynllunio Strategol Aberystwyth Bangor); Cyfarwyddwyr Dysgu ac Addysgu (A a B); Aelodau Cynghorau'r Prifysgolion (A a B); Cyfarwyddwyr Rhaglenni; Cynrychiolwyr Ysgolion y Bartneriaeth (Cynradd ac Uwchradd); a Chynrychiolwyr Awdurdodau Lleol.

- Cyflwyno ***Grŵp newydd i Warantu Ansawdd a Gwella Ansawdd yn y Ganolfan*** a fydd yn gyfrifol am ddiogelu safonau yn ogystal ag ymdrechu i gyrraedd y safonau uchaf ar draws y Ganolfan fel cyfangorff. Bydd y Grŵp hwn yn cwrdd yn fisol. Bydd y Grŵp Gwarantu Ansawdd a Gwella Ansawdd wedi'i gyfansoddi o'r canlynol: Cyfarwyddwr y Ganolfan (Cadeirydd); Dirprwy Gyfarwyddwr y Ganolfan; Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu (Bangor); Cyfarwyddwyr Rhaglenni; Arweinydd (Gwella Sgiliau Hyfforddeion); Arweinydd (Codi a Diogelu Safonau); Arweinydd (Gwella Mentora); Arweinydd (Gwella Lles Hyfforddeion); Rheolwr Data'r Ganolfan; a chynrychiolwyr Ysgolion y Bartneriaeth (C ac U).

- Nid yw'r Pwyllgor Llywio Cynradd ac Uwchradd, a fu gynt, yn bodoli dim rhagor yn y drefn newydd hon. Yn lle hynny, mae **cynrychiolwyr Ysgolion y Bartneriaeth bellach yn chwarae rhan fwy canolog ac annatod** yn yr atebolrwydd mewn perthynas â'r weledigaeth strategol (drwy'r Bwrdd Adolygu Perfformiad), a mewn diogelu a chodi safonau (drwy Grŵp Gwarantu Ansawdd a Gwella Ansawdd y Ganolfan).

O ganlyniad, o ystyried y newidiadau uchod **byddwn yn annog ac yn croesawu bod ysgolion o fewn Partneriaeth ein Canolfan yn enwebu**:

a) Prifathro neu Uwch Fentor i fod yn aelod o'r ***Bwrdd Adolygu Perfformiad***. O'r enwebiadau a dderbynnir detholir 4 o enwebedigion: dau yn cynrychioli ysgolion cynradd a dau ysgolion uwchradd;
b) Uwch Fentor neu Fentor Pwnc i fod yn aelod o ***Grŵp Gwarantu Ansawdd a Gwella Ansawdd y Ganolfan***. O'r enwebiadau a dderbynnir detholir 6 o enwebedigion: tri yn cynrychioli ysgolion cynradd a thri ysgolion uwchradd;

Gallwch anfon eich enwebiadau drwy e-bost ataf (Yr Athro Malcolm Thomas ar mlt@aber.ac.uk).

Yn olaf, oherwydd y newidiadau hyn a nodir uchod **rydym yn cynnal gweithdai Hyfforddiant i Fentoriaid ar y 7fed a'r 8fed o Hydref (1-4pm) ym Mangor ac Aberystwyth ill dwy**. Yn ystod y gweithdai hyfforddiant hyn byddwn yn mynd drwy'r protocoliau newydd, y gweithdrefnau a'r disgwyliadau o ran cynllunio gwersi gan hyfforddeion ac asesu gwersi hyfforddeion. Felly, byddem yn ddiolchgar pe gellid rhyddhau mentoriaid i fod yn bresennol yn y sesiynau pwysig hyn.

Nodwch, os gwelwch yn dda, mai'r un fydd natur yr hyfforddiant yn Aberystwyth a Bangor ill dwy ac yn gyffredin i ysgolion cynradd ac uwchradd fel ei gilydd. Gobeithir y bydd hyn yn galluogi ysgolion i fynd i'r hyfforddiant sydd agosaf atynt. **Er mwyn hwyluso trefnu'r digwyddiadau hyfforddiant hyn a wnewch chi roi gwybod i Rachel Pople** (r.pople@bangor.ac.uk) **pwy fydd yn dod o'ch ysgol chi ac i ba leoliad (naill ai Aberystwyth neu Fangor).**

Diolch ichi am fod yn fodlon parhau'n rhan o Bartneriaeth y Ganolfan ac am eich cydweithrediad i fynd i'r afael â'r datblygiadau heriol a chyffrous sy'n digwydd mewn addysg yng Nghymru. Gyda'n gilydd fe sicrhawn ddyfodol llwyddiannus a disglair i'n Canolfan yn rhanbarth gogledd a chanolbarth Cymru, yn ogystal â bod yn rhagweithiol wrth arwain ac ymateb i newid mewn addysg, datblygiad proffesiynol ac ymchwil yng Nghymru.

Edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda chi.

Yr Athro Malcolm Thomas
Cyfarwyddwr
Canolfan Addysg Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes
School of Education & Lifelong Learning
Aberystwyth
SY23 3UX

Ffôn/Tel: +44 (0)1970 622104 E-bost: addysg@aber.ac.uk
Ffacs/Fax: +44 (0)1970 622258 E-mail: education@aber.ac.uk

www.aber.ac.uk

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Yr Ysgol Addysg
School of Education
Bangor
LL57 2PZ

Ffôn/Tel: +44 (0)1248 383082 E-bost: addysg@bangor.ac.uk
Ffacs/Fax: +44 (0)1248 383092 E-mail: education@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk